Canllaw

GC486-00

# PECYN GWYBODAETH YMGEISYDD

# GWEITHWYR MÂN ADDASIADAU X 3

## Mai 2022

**CYNNWYS**


1. **Croeso**
2. **Cefndir**
3. **Awgrymiadau ar gyfer cwblhau cais**
4. **Disgrifiad Swydd a Manyleb Person**
5. **Sut i ymgeisio am y swydd**
6. **Datganiad Cyfle Cyfartal**
7. **Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

## 1. Croeso

Annwyl Ddarpar Ymgeisydd

**Cyfeirnod y swydd: GC486-00**
**Gweithwyr Mân Addasiadau x 3**
**Cytundeb Parhaol**
**Oriau gweithio: 40 awr yr wythnos**
**Lleoliad gwaith: Parc Menai, Bangor**

Diolch i chi am holi ynglŷn â'r swydd uchod gyda Canllaw ac amgaewn becyn swydd i'ch sylw.

***Cofiwch nodi popeth sy'n berthnasol i'r cais gan gadw mewn cof yr hyn sydd yn y manyleb person.***

1. Darllenwch y disgrifiad swydd a'r manyleb person yn ofalus.
2. Cwblhewch bob rhan o'r ffurflen gais.
3. Peidiwch â chynnwys CV.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ffurflen gais, gan eich atgoffa i'w chyflwyno erbyn 12.00 o'r gloch y prynhawn, **dydd Llun, 13 Mehefin 2022.**

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglŷn â'r swydd, yna mae croeso i chi gysylltu ag Elfyn Owen, Cyfarwyddwr Canllaw ar 07702 191828.

**Yn gywir**
**Tîm Adnoddau Dynol**

## 1. Cefndir

### Canllaw

Nod Canllaw yw *"galluogi pobl i fyw yn eu cymunedau"*. Rydym yn fenter gymdeithasol sy'n gweithredu ar draws Gwynedd ac Ynys Môn, gan ddarparu gwasanaethau tai mewn ymateb i anghenion pobl hŷn neu bobl fregus lleol. Mae ein gwasanaethau yn cynnwys:

**Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn** – Gwasanaeth rhad ac am ddim i bobl 60 oed a drosodd i'w cynghori a chefnogi i gynnal, gwella neu addasu eu cartrefi. Yn benodol yn y sector breifat, ac wedi ei ariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cymru.

**Canllaw Addasu** - Gwasanaeth masnachol o gynnal addasiadau priodol yng nghartrefi pobl hŷn neu bobl fregus, er mwyn iddynt gynnal eu hannibyniaeth.

**Canllaw Technegol** - Gwasanaeth proffesiynol o ddylunio, cynllunio, archwilio a goruchwylio gwaith adeiladu, boed gwaith mawr neu fach. Yn gwasanaethu cleientiaid sy'n bobl hŷn neu bobl fregus.

Mae'r swydd hon gyda'r gwasanaeth Canllaw Addasu yn cynnig cyfle i unigolion sy'n awyddus i ddatblygu gyrfa yn y maes tai mewn awyrgylch Gymreig lle mae'r amodau gwaith yn flaengar a chyfeillgar i'r teulu.

Mae Canllaw yn is-gwmni i Grwp Cynefin

**Mwy o wybodaeth -** Ewch ar ein gwefan : www.grwpcynefin.org

## 2. Awgrymiadau ar gyfer cwblhau cais am swydd gyda Canllaw

Yn Canllaw mae ein hethos yn canolbwyntio ar alluogi, cefnogi a grymuso pobl, ac mae hynny'n cynnwys ein staff. Gyda hyn mewn golwg rydym wedi tynnu ynghyd ychydig o gyngor ac awgrymiadau defnyddiol ar sut i gwblhau cais am swydd wag gyda Canllaw. Rydym am asesu pobl ar eu gorau fel y gallwn gael gwir ddealltwriaeth o addasrwydd i'r rôl ac i'n sefydliad.

### Y pethau sylfaenol

Mae'n swnio'n syml ond mae'r pethau sylfaenol hyn yn gwneud gwahaniaeth i'ch cais.

- Cwblhewch y cais yn llawn gan roi sylw arbennig i hanes a dyddiadau swyddi. Peidiwch â gadael dyddiadau'n wag - os oes gennych fwlch yn eich cyflogaeth dywedwch wrthym am hyn, ni fydd yn effeithio ar ein hasesiad

- Gwiriwch eich sillafu a'ch gramadeg

- Sicrhewch fod eich cais yn cael ei gyflwyno'n dda yn electronig. Rydym yn asesu cymwysiadau yn gyffredinol ar gyfer llythrennedd cyfrifiadurol a defnyddio Microsoft Office

## Deall y rôl / swydd

Mae ein ffurflen gais yn gofyn am eich dealltwriaeth o addasrwydd i'r rôl fel y gallwch ffitio o fewn diwylliant a gwerthoedd ein sefydliad.

- **PEIDIWCH â** diystyru na rhuthro'r cwestiynau hyn - maen nhw'n rhan o'n hasesiad
- **PEIDIWCH â** chopïo na llên-ladrata o gynnwys ar-lein neu ein gwefan
- **COFIWCH** ymchwilio i'r pwnc (os oes angen) a ffurfio'ch casgliad eich hun
- **COFIWCH** ymchwilio i ddarpariaethau Canllaw a'r rhiant gwmni.

## Datganiad personol - y darn pwysig iawn!

Bydd eich datganiad personol yn cael ei farcio gan grŵp o aseswyr (o leiaf dau o bobl) yn annibynnol yn erbyn manyleb unigolyn y rôl. Y fanyleb person yw'r ddogfen olaf yn y pecyn swydd bob amser a bydd yn cynnwys set o feini prawf hanfodol a ddymunol.

- **GWNEWCH YN SIWR** eich bod yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol, yn benodol lefel y profiad sy'n ofynnol ar gyfer y rôl. Ni fydd ceisiadau nad ydynt yn cwrdd â'r lefel ofynnol o brofiad yn cael eu hasesu ymhellach
- **COFIWCH** deilwra'ch cais gan ddarparu manylion ac enghreifftiau ar gyfer pob gofyniad yn y fanyleb person.

Er enghraifft, nid yw'n ddigonol dweud "Rwy'n chwaraewr tîm da". I sgorio'r mwyafrif o bwyntiau byddwch chi'n rhoi enghraifft i ni o amser lle buoch chi'n gweithio fel rhan o dîm a beth oedd y canlyniad.

- **COFIWCH** gynnwys pob un o ofynion y fanyleb person
- **COFIWCH** gynnwys penawdau a'i gwneud hi'n hawdd i'r asesydd weld pa ofyniad yn y fanyleb person rydych chi'n cyfeirio ato
- Nid yw ychydig o frawddegau yn ddigon o hyd ar gyfer datganiad personol. Bydd datganiad da yn darparu'r holl lefel o fanylion sydd eu hangen arnom ond bydd yn glir ac yn gryno
 **- tua 2 dudalen A4 yn fras**.

## Pwynt cyswllt

Mae ein pecynnau swyddi bob amser yn cynnwys pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach. Os ydych chi am ddarganfod mwy am y rôl neu wirio'ch addasrwydd, defnyddiwch y wybodaeth gyswllt a ddarperir.

## 3. Disgrifiad Swydd a Manyleb Person

**CANLLAW (ERYRI) CYF.**

---

**DISGRIFIAD SWYDD**

# GWEITHIWR MÂN ADDASIADAU

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Canllaw Addasu |
| **Yn uniongyrchol atebol i:** | Cydlynydd Canllaw Addasu |
| **Yn uniongyrchol gyfrifol am:** | Amherthnasol |
| **Lleoliad y swydd:** | Bangor |

**Pwrpas y Swydd:**

- Gosod canllawiau, rampiau, cadeiriau cawod ayyb yn unol â gofynion yr asesydd a'r unigolyn.
- Asesu anghenion a pheryglon i unigolion o amgylch eu cartrefi a gweithio'n fedrus ac yn ddiwyd i ddarparu gwasanaeth ymarferol i ddiogelu'r unigolyn o fewn amgylchedd ei gartref.

**CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL:**

1. Gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm Canllaw Addasu i asesu anghenion cyffredinol y cleient ac asesu peryglon corfforol i'r cleient o fewn ei gartref, gan adnabod y risgiau all fod yn bresennol.

2. Ymgymryd â chyflawni mân waith ymarferol yn feunyddiol mewn cartrefi cleientiaid i leihau'r risgiau a adnabuwyd.

3. Yn dilyn derbyn cyfeiriad priodol drwy'r Gweinyddydd Canllaw Addasu, trefnu i ymweld a chynnal arolwg gweledol o gartref y cleient o safbwynt ei ddiogelwch corfforol, atal

codymau ac atal troseddau, gan gynghori'r cleient ynglŷn â'r peryglon posib sydd wedi eu hadnabod.

4. Cyflawni ystod eang o fân waith ymarferol o amgylch y cartref i'r safon uchaf, mewn modd dyfal a gweithgar, gan sicrhau boddhad y cleient. Sicrhau wrth gyflawni'r gwaith bod yr eiddo'n cael ei adael yn ddiogel, glan a thaclus.

5. Pan yn briodol, cyd-drefnu gyda chleientiaid a phartneriaid/asiantaethau allanol i gadarnhau'r gwaith sydd angen ei gwblhau a threfnu i gael mynediad i eiddo'r cleient.

6. Trafod gyda'r cleient ynglŷn ag agweddau tu allan i faes y gwasanaeth Canllaw Addasu a chyfeirio'r mater at wasanaethau eraill sydd ar gael pan fo angen.

7. Datblygu perthynas weithio dda gyda chyrff eraill i sicrhau rhag dyblygu gwasanaethau arbedol eraill a gaiff eu cynnig gan y Cyngor Sir neu'r Bwrdd Iechyd Lleol.

8. Cyfrifol am gadw cerbyd gwaith y gwasanaeth Addasu Cartrefi yn lân ac yn daclus a threfnu unrhyw waith cynnal a chadw angenrheidiol, gan adrodd i'r Cydlynydd Canllaw Addasu pan fo'r gwaith yn cael ei drefnu a phan gaiff ei gwblhau.

9. Cynnal a gweinyddu systemau cyfrifiadurol i gofnodi cyfeiriadau, achosion gwaith ayyb i fonitro gweithrediad ac ansawdd y gwasanaeth, er mwyn darparu adroddiadau perthnasol y gwasanaeth Canllaw Addasu yn rheolaidd.

Ni all yr un disgrifiad swydd ymwneud â phob mater a all godi o fewn y swydd ar wahanol adegau, a disgwylir i'r deiliad wneud y dyletswyddau eraill o bryd i'w gilydd

## MANYLEB PERSON

## GWEITHIWR MÂN ADDASIADAU

**Ystyrir yr holl feini prawf yn hanfodol oni nodir fel dymunol**

**Disgwylir i ymgeiswyr fod yn ddwyieithog, yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig**

**Addysg a Chymwysterau**:
TGAU
NVQ Lefel 3 (National Vocational Qualification)
City & Guilds Lefel 3
Neu'r hyn sy'n cyfateb trwy hyfforddiant neu brofiad perthnasol

**Profiad Proffesiynol:**
Profiad o'r maes adeiladu/cynnal a chadw ar ôl bwrw prentisiaeth

**Gwybodaeth a Sgiliau:**

Trwydded yrru gyfredol lawn
Dealltwriaeth sylfaenol o reolau adeiladu
Dealltwriaeth o reoliadau Iechyd a Diogelwch
Sgiliau aml grefft *(dymunol)*
Gallu i asesu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gwblhau'r archeb waith
Gallu i asesu safon y gwaith a gwblhawyd
Gallu defnyddio TGC fel arf rheoli gwaith

Yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn y lefelau canlynol neu lefelau uwch:

<u>Gwrando</u>: Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith yn y ddwy iaith rhwng siaradwyr rhugl.
<u>Siarad:</u> Yn gallu cynnal sgwrs go fanwl am faterion gwaith arferol yn y ddwy iaith
<u>Darllen</u>: Yn gallu darllen a deall deunydd cyffredin a deunydd technegol gyda geiriadur yn y ddwy iaith
<u>Ysgrifennu</u>: Yn gallu drafftio testun arferol gyda chymorth golygyddol yn y ddwy iaith.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth**

Medru cynrychioli'r Cwmni yn gadarnhaol a phroffesiynol

**Nodweddion Personol**:

Ymrwymiad i wasanaeth cwsmer, ansawdd a gwelliant parhaus
Y gallu i barchu cyfrinachedd
Hyrwyddo a gweithredu yn unol â'r Polisi Iechyd a Diogelwch
Hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhob agwedd o'r gwaith
Gallu i ddatblygu perthynas weithio effeithiol, yn fewnol ac allanol

**Cysylltiadau:**

Mewnol: Pob aelod o staff

Allanol: Cleientiaid a defnyddwyr gwasanaeth eraill, contractwyr, ymgynghorwyr, asiantaethau allanol, asiant rheoli ac aelodau'r cyhoedd

**Amgylchedd Gwaith:**

Oriau gwaith arferol, gan sicrhau darparu gwasanaeth ar gyfer ymholiadau rhwng 9.00 - 5.30 o'r gloch yn ddyddiol

| Crynodeb o'r Telerau ac Amodau<br>GWEITHIWR MÂN ADDASIADAU | |
|---|---|
| **Math o gytundeb** | Parhaol |
| **Cyflog** | £26,849 y flwyddyn pro rata<br>Telir cyflog ar yr 20fed o bob mis |
| **Gwyliau:** | 30 diwrnod gwaith o wyliau'r flwyddyn ynghyd â 3 diwrnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a'r gwyliau banc statudol pro rata. |
| **Teithio:** | Darperir fan gwaith |
| **Pensiwn:** | Mae Canllaw yn cynnig aelodaeth o'r "Social Housing Pension Scheme" |
| **Cyfnod prawf:** | 6 mis |
| **Oriau gweithio a threfniant gwaith** | 40 awr yr wythnos<br>Dydd Llun – Dydd Gwener |
| **Cyfnod rhybudd:** | 1 mis |
| **Tâl salwch** | Mae cynllun tâl salwch galwedigaethol yn weithredol sy'n cynnig tâl am hyd at 6 mis wedi 5 mlynedd o wasanaeth |
| **Absenoldebau Arbennig** | 5 diwrnod pro rata gyda thâl mewn unrhyw gyfnod o 12 mis i ofalu am ddibynyddion penodol<br>2 diwrnod pro rata gyda thâl i briodi, i symud tŷ, i ysgaru.<br>Amser credyd ar gyfer apwyntiadau meddygol.<br>Hyd at 10 diwrnod pro rata gyda thâl ar achlysur o brofedigaeth.<br>Hyd at 3 mis pro rata gyda thâl i ofalu am berthynas agos gydag afiechyd terfynol |

## 4. Sut i ymgeisio am y swydd

Cwblhewch y ffurflen gais a'i chyflwyno erbyn **hanner dydd, dydd Llun, 13 Mehefin 2022 i gyferiad ebost swyddi@grwpcynefin.org.**

## 5. Datganiad Cyfle Cyfartal

Mae Grŵp Cynefin yn derbyn gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010 ynghyd â deddfwriaethau eraill perthnasol a'u goblygiadau. Mae gweithdrefnau yn eu lle i oresgyn gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae polisïau Grŵp Cynefin yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod unigolion yn cael eu trin yn deg.

## 6. Ffurflen Monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Gofynnwn yn garedig i chi hefyd gwblhau'r linc i'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fydd yn yr e-bost yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais.